# Yr Athro Ymholgar
## ECPP7001C
## Sesiwn 5



# Cyfranogiad disgyblion mewn ymchwil

# Sut olwg sydd ar ymchwilydd?

# Sut olwg sydd ar ymchwilydd?

- O beth/phwy wnaethoch chi dynnu llun?
- Ble mae'r ymchwilydd wedi'i leoli?
- Sut maen nhw'n gwneud eu hymchwil?
- A yw'r ymchwilydd o'r gymuned?
- Sut mae'ch llun yn cymharu â'r hyn y tynnodd eich partner?

# Sut olwg sydd ar ymchwilydd?

- Pobl yn cael eu ' hymchwilio '
- Ymchwil cyfranogol


The Ladder of Citizen Participation
8 Citizen Control
7 Delegated Power
6 Partnership
Degrees of citizen power
5 Placation
4 Consultation
3 Informing
Degrees of tokenism
2 Therapy
1 Manipulation
Nonparticipation
Source: Arnstien, 1969

# Ymchwil cyfranogol

https://www.youtube.com/watch?v=o3xsttz8F8o

# Manteision cymryd rhan

- Ennill mwy o reolaeth dros eich bywyd eich hun;
- Bod yn ymwybodol o'ch adnoddau personol a'u defnyddio;
- Goresgyn rhwystrau i ddiwallu eich anghenion a'ch dyheadau;
- Clywed eich llais yn gwneud penderfyniadau;
- Gallu herio anghydraddoldeb a gormes yn eich bywyd.

Dalrymple and Burke (2001:49)

Dalrymple J, and Burke B, (2001) *Anti Oppressive Practice: Social Care and the Law*, Buckingham: Open University Press.

# Sut? - Dulliau Cyfranogol

- Technegau gweledol (darluniau, diagramau, mapiau)
- Chwarae rôl a drama
- Arfarniadau llun a gwneud fideo
- Technegau grŵp gan gynnwys grwpiau ffocws
- Adrodd stori, ysgrifennu, traethodau, dyddiaduron, dwyn i gof ac arsylwi
- Byrddau stori
- Cyfweliadau lled-strwythuredig neu anstrwythuredig

# Gwahaniaethau rhwng dulliau confensiynol a chyfranogol

| | Conventional | Participatory |
|---|---|---|
| Who | External Experts | Community members, project staff, students, facilitators |
| What | Pre-determined indicators of success, principally cos and production output | People identify their own indicators of success |
| How | Focus on ‘scientific objectivity’, uniform, complex procedures, limited access to results | Self-evaluation, simple methods adapted to local culture, open, immediate sharing of results through local involvement |
| When | Usually upon completion, sometimes also mid-term | Merging of monitoring and evaluation, hence frequent small projects |
| Why | Accountability, usually a summary. | To empower local people to initiate, control and ake corrective action |
| | | |
| Jobes, K. (1997) *Participatory Monitoring and Evaluation Guidelines: Experiences in the field.* Social Development Division, DfiD, London. | | |

# Cynnwys disgyblion mewn gwaith ymchwil

- UNCRC - Mae erthygl 12 yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ar unrhyw fater sy'n effeithio arnynt.

- "Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru."

  LlC, 2011

# Llais y disgybl - disgyblion

- Datblygu'r gallu i fyfyrio ar ddysgu = mwy o reolaeth dros sut rydych yn dysgu a sut i'w wella
- Cael eu parchu, gwrando arnynt a'u cymryd o ddifrif = synnwyr cadarnhaol o'u hunain
- Barn yn gwneud gwahaniaeth i sut mae pethau'n cael eu gwneud yn yr ysgol = asiant newid
- Gallu newydd i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau
- Ymdeimlad o berthyn – aelodaeth fwy cadarnhaol o'r dosbarth a'r ysgol
- Gweld athrawon yn wahanol

# Llais y disgybl - athrawon

- Cael eu synnu'n gadarnhaol gan blant = canfyddiad mwy agored o alluoedd ac agweddau disgyblion
- Profi ffordd wahanol o weithio gyda disgyblion = ymdeimlad o gyffro yn yr addysgu
- Agenda gadarnhaol ar gyfer gwella = mewnwelediad sy'n helpu eu datblygiad proffesiynol
- Gweld newidiadau cadarnhaol o ganlyniad i ymgysylltiad myfyrwyr â'u llais

# Cyfweliad grŵp ffocws

# Cyfweliad grŵp ffocws – llais y disgybl

Mae grŵp ffocws yn fath o ymchwil ansoddol lle gofynnir i grŵp o blant am eu hamgyffrediad, eu barn a'u hagweddau tuag at wers neu arddull addysgu.

# Cyfweliad grŵp ffocws – llais y disgybl

Gofynnir cwestiynau mewn grŵp rhyngweithiol lle mae'r plant yn rhydd i siarad ag aelodau eraill y grŵp.

Cynhelir cyfweliad y grŵp ffocws mewn ffordd anffurfiol a naturiol lle mae'r plant yn rhydd i roi eu barn.

# Grŵp ffocws/cyfweliadau lled-strwythuredig

- Pwyntiau cadarnhaol?
- Pwyntiau negyddol?

# Grŵp ffocws/cyfweliadau lled-strwythuredig

## Cryfderau

- Perthynas gadarnhaol rhwng y cyfwelydd a'r cyfwelai
- Gall pobl siarad am rywbeth yn fanwl
- Gellir trafod/egluro cwestiynau a materion cymhleth
- Hawdd ei gofnodi

## Cyfyngiadau

- Yn dibynnu ar fedr y cyfwelydd
- Gall y cyfwelydd roi signalau anymwybodol
- Amser
- Gall dyfnder gwybodaeth fod yn anodd ei dadansoddi
- Dilysrwydd

# Grŵp ffocws/cyfweliadau lled-strwythuredig

- https://youtu.be/bPjJ6TPkLVM

- Pwyntiau cadarnhaol?
- Pwyntiau negyddol?


• cymhwyso canlyniadau ymchwil i achosion neu sefyllfaoedd y tu hwnt i'r rhai a archwiliwyd yn yr astudiaeth
Cyffredinoli
Dibynadwyedd
• the degree to which an assessment tool produces stable and consistent results.
Sampl gynrychioliadol
• Sampl fach sy'n adlewyrchu'r endid mwy yn gywir
Dilysrwyddty
• hygrededd neu gredadwyedd yr ymchwil. A yw'r canfyddiadau 'n ddilys?

# Problemau gyda dilysrwydd mewn cyfweliad grŵp ffocws

- Nid oes gan yr ymchwilydd unrhyw ffordd wirioneddol o wybod a yw'r atebydd yn dweud celwydd.
- Efallai na fydd yr ymatebydd yn ymwybodol o'r peth ond efallai y bydd yn cofio rhywbeth mewn ffordd amherffaith.
- Weithiau, gall cyfweliad fod yn "ail gyfle" i wneud rhywbeth; ar ôl cael yr amser i fyfyrio ar rywbeth a wnaethant, mae'r atebydd yn ceisio gwneud synnwyr o'i ymddygiad drwy resymoli eu gweithredoedd. Gall eu hesboniad am eu hymddygiad, wrth edrych yn ôl, fod yn wahanol iawn i'r hyn a deimlent mewn gwirionedd ar y pryd.